Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | ***Cynefin* - Rhaglen newid** |
| **DYDDIAD** | **18 Awst 2014** |
| **GAN** | **John Griffiths AC, Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon** |

Mae rhaglen 'Cynefin' bellach yn ei hail flwyddyn a dyma gyfle i sôn am lwyddiant ei blwyddyn gyntaf. Mae *Cynefin* yn defnyddio sgiliau Cydlynwyr Lle lleol i helpu i wella ansawdd bywyd pobl mewn cymunedau ledled Cymru trwy drechu tlodi, datblygu cydnerthedd, gwella sgiliau a chreu cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd. Cost y contract rheoli a chyflogi'r naw Cydlynydd Lle yw £575,534 y flwyddyn.

Y newid mawr rhwng *Cynefin* a rhaglenni traddodiadol yw nad oes gan y Cydlynwyr Lle gyllideb. Yn hytrach, maen nhw'n gweithio i feithrin cysylltiadau cynhyrchiol ac i helpu i chwalu'r rhwystrau rhwng cymunedau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu iddynt. Mae *Cynefin* yn rhoi pŵer i gymunedau i fod yn gyfrifol am greu eu newid positif eu hunain.

Yn ôl rhanddeiliaid lleol a chymunedau, mae *Cynefin* yn ychwanegu at werth y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd ac mewn rhai ardaloedd, mae *Cynefin* wedi galluogi cymunedau i ddylanwadu ar benderfyniadau gwario a gwaith awdurdodau lleol.

Mae gwaith Cydlynwyr Lle yn ymdrin ag amrywiaeth eang o feysydd polisi yn fy mhortffolio. Yn Llanelli, mae'r Cydlynwyr Lle wedi cydweithio â'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddylunio cynllun argyfwng cynhwysfawr a hyfforddiant ar gyfer ymateb mewn argyfwng. Yng Nghasnewydd, mae'r Cydlynwyr Lle wedi annog trafod rhwng grwpiau anodd eu cyrraedd, fel y Rhwydwaith Menywod Asiaidd a NEST. O ganlyniad, mae teuluoedd y bu'n anodd cael gafael arnyn nhw bellach wedi cael cyngor a chyfarpar arbed ynni.

Mae llawer o weithgareddau *Cynefin* yn cynnwys elfen o hyfforddiant a meithrin sgiliau. Yn wir, mae dros 100 o bobl wedi derbyn rhyw fath o hyfforddiant erbyn hyn. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae trigolion ystad Fairyland wedi cael hyfforddiant *Caru Bwyd Casáu Gwastraff* ac wedi cael cynnig cyrsiau coginio sylfaenol. Mae cyrsiau ar gynnal a chadw coedlannau a glannau afonydd, asesu glendid strydoedd, diogelwch

tân, trefnu digwyddiadau a bancio amser i gyd wedi'u cynnal yn ardaloedd peilot *Cynefin.*

Mae nifer o fentrau cymdeithasol wedi cael eu helpu i fod yn ariannol hyfyw ac mae rhai mentrau cymdeithasol newydd wedi'u creu. Er enghraifft, ym Mharc Caia, mae Cydlynydd Lle Wrecsam wedi helpu nifer o fentrau cymdeithasol oedd â'u dyfodol yn y fantol i fod yn hunangynhaliol.

Gyda chymorth Cydlynwyr Lle, mae grwpiau cymunedol wedi sicrhau gwerth mwy na £100,000 o grantiau trwy'r Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ynni'r Fro, Cadwch Gymru'n Daclus a Coed Cadw, ac mae dros 100 o gysylltiadau newydd wedi'u creu rhwng cymunedau a darparwyr gwasanaethau. Mae'r arian a'r cysylltiadau hyn wedi'i gwneud yn bosibl i gymunedau wneud gwahaniaeth go iawn i'r lleoedd y maen nhw'n byw:

Yn Wrecsam, mae *Cynefin* wedi cefnogi sefydlu Grŵp Ynni Wrecsam a'u cysylltu ag Ynni'r Fro sydd wedi'i helpu i gael at gymorth a chyllid i asesu ymarferoldeb cynlluniau trydan dŵr ledled y sir. Mae'r grŵp yn cynnal diwrnod agored yn Nyffryn Ceiriog i ddangos y cyfleoedd sydd ar gael i'r gymuned leol gyfrannu at ddatblygu'r prosiect.

Yn Rhondda Fawr, mae'r Cydlynydd Lle wedi bod yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a phartneriaid lleol i ddatblygu cynllun busnes i ddefnyddio coed llarwydd sydd â'r clefyd phytopthera arnyn nhw fel tanwydd biomas ar gyfer y farchnad leol. Mae'r clefyd yn gyffredin ym Mlaenau Rhondda. Mae'r cynnig diweddaraf ar gyfer safle ynni dŵr bychan yng nghoetir y gymuned yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau busnes fel ffynhonnell ynni bosibl ar gyfer prosesu'r pren sydd wedi'i dorri.

Mae *Cynefin* yn meithrin cysylltiadau defnyddiol ag arweinwyr polisi a phartneriaid allweddol mewn nifer o feysydd portffolio gan gynnwys iechyd, cymunedau a llywodraeth leol, cynllunio, addysg a diwylliant, treftadaeth a chwaraeon. Mae'r Cydlynwyr Lle wedi cyfrannu hefyd at waith y Byrddau Gwasanaethau Lleol a chynlluniau cyflenwi ar gyfer Cynlluniau Integredig yr awdurdodau lleol.

Mae Brook Lyndhurst wrthi'n adolygu gwaith *Cynefin* trwy waith ymchwil a chan ddefnyddio data dangosyddion trawsbynciol.

Mae'r data cychwynnol yn cynnig syniad o'r canlyniadau hyd yma: mae rhyw 1,000 o gyrff ac unigolion eisoes yn cymryd rhan weithgar mewn gwaith sy'n gysylltiedig â *Cynefin,* ac mae'r Cydlynwyr Lle wedi creu 40 o weithgorau. Gyda'i gilydd, mae'r gweithgorau hyn wedi creu dros 70 o gynlluniau cyflenwi lleol; rhai ar gyfer lleoedd penodol, eraill ar gyfer tasgau neu brosiectau penodol. Mae rhyw 6,000 o oriau wedi'u rhoi gan y cyhoedd, cyrff a mudiadau preifat a gwirfoddol yn ogystal â chan drigolion lleol a grwpiau cymunedol.

Ym mis Rhagfyr, cytunodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd y byddai'r Cydlynwyr Lle yn cael parhau i weithio yn eu cymunedau tan fis Mawrth 2016. Gan y bu cymaint o diddordeb yn y ffordd y mae *Cynefin* yn gwneud pethau, gofynnwyd i'm swyddogion ehangu *Cynefin* i gynnwys dwy ardal ychwanegol. Disgwylir i'r cynnydd hwn ychwanegu rhyw £120,000 at gost flynyddol *Cynefin.* Gallaf gadarnhau yn awr mai'r ardaloedd ychwanegol hynny yw Llandrindod a Thredegar.

Mae Llandrindod yn wynebu amrywiaeth o heriau gan gynnwys llawer o bobl yn dioddef tlodi tanwydd a lefelau uchel o ddiweithdra. Mae tlodi gwledig hefyd yn broblem, ac yn fy marn i, mae cyflogi Cydlynydd Lle yn ffordd effeithiol o gysylltu *Cynefin* â'r Rhaglen Datblygu Gwledig, Bil yr Amgylchedd ac adolygiad Glastir, gan ddod â gwelliannau mawr i ansawdd bywyd teuluoedd cefn gwlad.

Cafodd Tredegar ei ddewis oherwydd yr ystod eang o anghydraddoldebau cymdeithasol –economaidd ac amgylcheddol a geir yno, a bod gennym gyfle yn awr i adeiladu ar yr astudiaeth fanwl ddiweddar o Dredegar a gynhaliwyd gan CREW. Lansiwyd y canfyddiadau ar 28 Ebrill. Bydd y Cydlynydd Lle yn gallu helpu i roi'r 17 o argymhellion a gafwyd yn yr astudiaeth ar waith a sicrhau canlyniadau gweladwy sy'n seiliedig ar yr ymchwil honno.

Rydym yn rhagweld y bydd y Cydlynwyr Lle newydd hyn wedi'u penodi erbyn yr hydref.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau. Os carai aelodau imi wneud datganiad pellach neu i ateb cwestiynau amdano wedi i'r Cynulliad ailymgynnull, byddaf yn fwy na pharod i wneud hynny.